Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I:	Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu Cyngor Sir Ceredigion
DYDDIAD:	29 Medi 2022
LLEOLIAD:	Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda
TEITL:	Adroddiad Trosolwg y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol 2021 – 2022
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Rhoi trosolwg a diweddariad ar gynnydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu Cyngor Sir Ceredigion.
RHESWM PAM MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:	Rhoi trosolwg o'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

CEFNDIR:

1.1. Sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru gan Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys ("yr Awdurdodau Lleol") i ddarparu ffocws ar gyfer sgiliau yng Nghanolbarth Cymru, ac ysgogi twf economaidd drwy sicrhau buddsoddiad yn y sgiliau cywir.

1.2. Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn un o bedair partneriaeth sgiliau rhanbarthol yng Nghymru ac mae'n cynnwys ardaloedd Awdurdod Lleol Powys a Cheredigion.

1.3. Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn bartneriaeth a arweinir gan fyd busnes yn bennaf, sy'n gweithio gydag arweinwyr busnes a rhanddeiliaid ar draws y rhanbarth er mwyn deall y ddarpariaeth sgiliau ac anghenion y farchnad lafur, er mwyn ysgogi buddsoddiad sy'n bodloni gofynion cyflogwyr a'r gweithlu.

1.4. Mae'r Bartneriaeth yn pontio'r bwlch rhwng addysg ac adfywio er mwyn creu economi gref a ffyniannus sy'n seiliedig ar arloesedd, twf a gweithlu galluog. Mae'n gweithio gyda phartneriaid i archwilio cyfleoedd i 'ail-sgilio', newid gyrfaoedd, 'uwchsgilio' pobl yn eu cyflogaeth bresennol, adeiladu dealltwriaeth o sgiliau ar gyfer y dyfodol ac adnabod bylchau sgiliau gyda chyflogwyr a darparu cyfleoedd hyfforddi megis dysgu sy'n seiliedig ar waith / prentisiaethau / cyrsiau gradd a chymwysterau eraill megis BTEC, NVQ a TGAU / Lefel A.

1.5. Mae gwaith y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn galluogi ymateb rhanbarthol cynhwysol i bolisi a mentrau Llywodraeth Cymru. Rydym yn cyfateb gweithgareddau â gofynion sgiliau Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ac yn cydweithio'n strategol ar ran rhanddeiliaid ar draws Canolbarth Cymru, gan gynnwys y ddau Awdurdod Lleol.

1.6. Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn eistedd o dan y Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ehangach sy'n gyfrifol am Fargen Dwf Canolbarth Cymru. Dyma raglen o arian cyfalaf sy'n chwarae rhan allweddol o ran catalyddu adferiad a thwf economaidd yng Nghanolbarth Cymru,

gyda'r nod o greu swyddi a chynyddu cynhyrchiant, yn ogystal â sicrhau gwelliannau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach.

Ein gweledigaeth – fel y nodir yng Nghytundeb Rhyng-awdurdod Bargen Twf Canolbarth Cymru.

> Ein gweledigaeth yw sicrhau cyfatebiaeth rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat er mwyn mynd i'r afael â'r materion cyflenwad a galw am weithlu ystwyth effeithiol, gyda'r lefel sgiliau briodol i ddenu buddsoddiad mewnol i Ganolbarth Cymru a gwella rhwydweithiau cyfathrebu rhwng sectorau i ddeall a nodi llwybrau dysgu a gyrfa i gyflogaeth hirdymor, briodol ar gyfer dinasyddion Canolbarth Cymru.

Ein cenhadaeth. Mae Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn gweithredu fel grŵp rhanddeiliaid sy'n ymgysylltu ac yn ymgynghori â sectorau, diwydiannau a rhanbarthau penodol i:

- Nodi ac ymateb i anghenion cyflogwyr a dysgwyr ledled Canolbarth Cymru;
- Ymgysylltu â chyflogwyr, sectorau a rhanddeiliaid i nodi anghenion sgiliau nawr ac yn y dyfodol ar draws y rhanbarth a chynllunio yn unol â hynny;
- Sicrhau bod gweithgareddau yn cyfateb â'r galw yn y dyfodol ac ysgogi arloesi trwy ddysgu a chyflogaeth;
- Galluogi ymateb rhanbarthol cynhwysol i bolisi a mentrau Llywodraeth Cymru;
- Cyfateb gweithgareddau â gofynion sgiliau Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru.

Ein hamcanion.

- Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i nodi gofynion sgiliau o'r sector preifat yng Nghanolbarth Cymru;
- Sefydlu methodolegau i nodi cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol ar draws pob sector;
- Sefydlu grŵp strategaeth cwricwlwm i sicrhau cyfatebiaeth rhwng llwybrau dysgu a llwybrau dilyniant ar gyfer pob dysgwr CA4 / 5 i raglenni hyfforddiant dysgu seiliedig ar waith / Addysg Bellach / Addysg Uwch neu gynllun prentisiaeth rhanbarthol neu gynlluniau galwedigaethol. Cyflwyno cyrsiau gradd a meistr Addysg Uwch sy'n cyfateb ag agenda sgiliau'r dyfodol ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth yng Nghanolbarth Cymru;
- Sefydlu cynllun prentisiaeth rhanbarthol (gan gynnwys prentisiaethau ar y cyd) sy'n pontio ac yn sicrhau cyfatebiaeth rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat gan gydnabod natur drosglwyddadwy sgiliau;
- Cynhyrchu cyfarwyddyd gyrfaoedd arloesol i bob dysgwr yng Nghanolbarth Cymru i gysylltu dysgu a llwybrau gyrfa;
- Datblygu'r cysyniad o 'Ganolfannau Rhagoriaeth' yng Nghanolbarth Cymru;
- Gweithio gydag ystod o bartneriaid i sicrhau cyfleoedd ar gyfer cefnogaeth gydol gyrfa i

uwchsgilio'r gweithlu presennol, gan gynnwys y rhai sydd mewn cyflogaeth tymor byr;

- Bydd yr holl gamau gweithredu yn cael eu hategu gan ffocws dwyieithog cryf sy'n cyfrannu, trwy'r system addysg ddwyieithog unigryw a'r gweithlu ar draws Canolbarth Cymru, at y weledigaeth o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Y SEFYLLFA BRESENNOL:

2. Penodi Cadeirydd a Thîm y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

2.1. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar 12 Mai 2021. Penodwyd Adrian Watson, Pennaeth Ysgol, Canolfan y Dechnoleg Amgen, yn Gadeirydd Dros Dro Bwrdd y Bartneriaeth. Ar 21 Medi 2021, cytunodd Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru i benodi'r Cadeirydd dros dro presennol yn Gadeirydd parhaol nes cyfarfod blynyddol Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

2.2. Dechreuodd Aggie Caesar-Homden yn ei swydd fel Rheolwr Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru ar 8 Mehefin 2021.

2.3. Ym mis Rhagfyr 2021, dechreuodd Jean Farmer yn ei swydd fel Swyddog Ymgysylltu â Chyflogwyr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, ac ym mis Gorffennaf 2022 ymunodd Arinola Ogundeji â thîm y Bartneriaeth fel Swyddog Cefnogi Prosiectau.

2.4. Hyd yn hyn ni lwyddwyd i recriwtio Swyddog Datblygu Data ar gyfer y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Byddwn yn edrych ar hyn eto yn ystod y misoedd nesaf.

2.5. Ar hyn o bryd, mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn chwilio am Swyddog Prosiect i helpu i arwain y gwaith ynghylch y Warant i Bobl Ifanc.

3. Aelodaeth Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

Mae'r Cylch Gorchwyl yn nodi tabl aelodaeth arfaethedig ar gyfer y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Cytunodd yr Awdurdodau Lleol y byddai'r tabl isod yn disodli'r tabl a gynigiwyd yn wreiddiol:

Aelodaeth y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol	
2 Gynrychiolydd Addysg Uwch	Un cynrychiolydd o bob un o'r Prifysgolion (Aberystwyth a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant)
2 Gynrychiolydd Addysg Bellach	Un cynrychiolydd o bob un o'r colegau (Coleg Castell-nedd Port Talbot a Choleg Sir Gâr)
2 Gynrychiolydd Addysg a Sgiliau	Un swyddog o bob Awdurdod Lleol
2 Arweinydd Cynllunio Gweithlu Strategol	Un swyddog o bob Awdurdod Lleol
2 Gynrychiolydd Adfywio	Un swyddog o bob Awdurdod Lleol
2 Gynrychiolydd Iechyd	Un cynrychiolydd o bob un o'r Byrddau Iechyd (Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Bwrdd Iechyd Hywel Dda)
Darparwyr hyfforddiant	Ffederasiwn Hyfforddi Cenedlaethol Cymru + Darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith o bob Awdurdod

	Lleol
Diwydiant / Cyflogwyr Y Blaenoriaethau Twf Strategol ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru yw: Amaethyddiaeth, Bwyd a Diod Trafnidiaeth Cefnogi Menter Sgiliau a Chyflogaeth Ynni Cynnig Twristiaeth Cryfach Ymchwil Gymhwysol ac Arloesi Digidol Dylai'r holl feysydd hyn gael eu cynnwys yn y gynrychiolaeth a gynigir ar gyfer y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.	Cynrychiolydd yr un o'r sectorau sy'n deillio o'r rhai a nodwyd yn Adroddiad AECOM: 1. Twristiaeth – gan gynnwys lletygarwch ac arlwyo 2. Gweithgynhyrchu 3. Amaethyddiaeth ac economi'r tir 4. Gwasanaethau Cyhoeddus – a allai gynnwys llywodraeth leol a chenedlaethol, gwasanaethau brys ac amddiffyn 5. Sector sylfaen * 6. Gwasanaethau Digidol (mae'r grŵp hwn yn ychwanegol at y grwpiau a ddiffiniwyd gan AECOM) *Mae'r "sector" hwn yn arbennig o bwysig o ran ei raddfa gymharol yng Nghanolbarth Cymru, ac mae'n cynnwys seilwaith, cyfleustodau, prosesu bwyd, adwerthu a dosbarthu, ac iechyd, addysg a lles. Byddai hyn yn haeddu dadansoddiad pellach, gyda'r fantais o flaenoriaethu ystyried cynrychiolaeth o'r maes iechyd a gofal cymdeithasol (mae addysg yn cael ei chynrychioli mewn adrannau eraill).
Cynrychiolwyr Aelodau Cabinet Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru	Penodwyd un Aelod Cabinet o bob un o'r Awdurdodau Lleol
Gyrfa Cymru	Wedi'i benodi
Y Ganolfan Waith a Mwy / Yr Adran Gwaith a Phensiynau	Wedi'i benodi
Rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol	Wedi'i benodi
Eraill	Gwahodd diwydiannau, grwpiau cyflogwyr, sefydliadau addysg uwch neu bartneriaid trydydd sector eraill yn ôl yr angen. Gallai'r rhain gynnwys cymdeithasau gwirfoddol lleol a phartneriaid addysg neu hyfforddiant o'r tu allan i'r ddau awdurdod a allai fod am weithio o fewn y ddau awdurdod, neu a all gynnig llwybrau i addysg neu hyfforddiant i bobl yn rhanbarth Canolbarth Cymru.

3.1. Mae bylchau y gwyddys amdanynt o ran aelodaeth cyflogwyr / sectorau, er enghraifft, Amaethyddiaeth a Defnydd Tir, Bwyd a Diod.

3.2. Mae nifer o sefydliadau wedi cysylltu â Chadeirydd a Rheolwr y Bartneriaeth yn gofyn i ymuno â Bwrdd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru neu grŵp clwstwr.

3.3. Mae Rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi adolygu aelodaeth y tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol arall a'u grwpiau clwstwr. Mae'r ceisiadau a dderbyniwyd hyd yn hyn yn debyg i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol eraill.

3.4. Ar 21 Medi 2021, cytunodd Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru i roi awdurdod dirprwyedig i Gadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar y cyd â Rheolwr y Bartneriaeth i adolygu'r aelodaeth bresennol a sefydlu nifer o grwpiau clwstwr.

3.5. Hyd yn hyn sefydlwyd Grŵp Clwstwr Gwasanaethau Cyhoeddus a Grŵp Clwstwr Darparwyr Hyfforddiant.

3.6. Galwyd ar fusnesau i ymuno â'r Grŵp Clwstwr Busnesau. Disgwylir i'r Grŵp Clwstwr hwn gael ei sefydlu yn yr hydref.

3.7. Bydd Grŵp Clwstwr newydd yn cael ei sefydlu i ganolbwyntio ar y Warant i Bobl Ifanc.

3.8. Sefydlwyd Gweithgor Strategol Rhanbarthol gyda'r Penaethiaid Addysg o'r ddau Awdurdod Lleol.

3.9. Sefydlwyd Grŵp Rhwydwaith Cyflogadwyedd Strategol Rhanbarthol ar y cyd â Thîm Ymgysylltu Rhanbarthol Tyfu Canolbarth Cymru.

3.10. Bydd Grwpiau Gorchwyl a Gorffen ar gyfer meysydd polisi yn cael eu creu pan fo angen.

4. Gwaith Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

4.1. Mae Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi bod yn canolbwyntio ar y meysydd gwaith allweddol sy'n ofynnol er mwyn darparu rhaglen glir i ddilyn, gan gynnwys y meysydd allweddol sef strwythur, nodi anghenion, adeiladu partneriaeth a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

4.2. Rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod i'r rhanbarth am y targedau yr oedd angen eu cyflawni yn ystod 2021 – 22 a chafwyd manylion y rhain yn Atodlen 2 y Llythyr Dyfarnu Grant. Yn unol â hynny, cyflwynwyd yr adroddiadau tystiolaeth a'r hawliadau er mwyn cael cyllid gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

4.3. Mae'r targedau allweddol sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 2 fel a ganlyn:

Tasg	**Gweithgareddau Penodol Ebrill 2021 – Mawrth 2022**	**Llinell Amser**
Casglu, cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth am y farchnad lafur i gefnogi blaenoriaethau parhaus Llywodraeth Cymru. Arweiniad pellach i'w ddarparu.	Adroddiadau Gwybodaeth am y Farchnad Lafur Covid-19 / Brexit.	Tri adroddiad yn ystod y flwyddyn – dyddiadau i'w nodi.

Mabwysiadu swyddogaeth y Grwpiau Cyflogaeth ac Ymateb Rhanbarthol. ***Arweiniad pellach i'w ddarparu.***	Dylai Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol barhau i weithio'n agos â'u Prif Swyddogion Rhanbarthol a'u rhanddeiliaid rhanbarthol i gefnogi Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol a hefyd bod yn ymwybodol o faterion trawsffiniol.	O fis Mai 2021
Darparu ysgrifenyddiaeth i Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (WESB).	Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ddarparu ysgrifenyddiaeth lawn gan gynnwys trefnu cyfarfodydd, cymryd cofnodion a chroesawu aelodau ar sail cyfarfod cylchdro. Bydd Llywodraeth Cymru yn arwain ar gynnwys polisi a darparu cefnogaeth i Weinidogion.	O fis Medi 2021
Cymorth i sicrhau cyfatebiaeth rhwng cyflenwad a galw ar draws y system sgiliau. ***Arweiniad pellach i'w ddarparu.***	Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ddarparu data sylfaen ar gyfer cynllunio Addysg Bellach, gan ddefnyddio gwybodaeth a arweinir gan gyflogwyr a data gwybodaeth am y farchnad lafur. Nodi a darparu sylwadau amserol ar flaenoriaethau sgiliau rhanbarthol ar draws y sectorau. Dylid cyfeirio at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Chanllawiau Cynllunio ac Ariannu Ôl-16. Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i gefnogi datblygiad ymagwedd ddiwygiedig, strategol at Gynllunio ac Ariannu Ôl-16 yn sgil Covid-19.	Parhaus

	Nodi'r blaenoriaethau ar gyfer prentisiaethau ar sail gwybodaeth cyflogwyr.	Parhaus
	Cefnogi Polisi Sgiliau Prentisiaethau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag anghenion busnesau Cymru a'r economi ehangach.	Parhaus
	Cynnal perthnasoedd gwaith cadarnhaol â phrifysgolion i gytuno ar flaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer addysg uwch.	Parhaus
	Gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i lywio datblygiad y cwricwlwm.	Parhaus
	Gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i lywio datblygiad y cwricwlwm.	Parhaus
	Llywio blaenoriaethau ar gyfer Cyfrifon Dysgu Personol.	Parhaus
	Gweithio gyda dysgwyr / cynghorwyr gyrfaoedd i gryfhau cyngor gyrfaoedd ar draws rhanbarthau.	Parhaus
	Darparu sylfaen dystiolaeth i lywio datblygiad a gweithrediad rhaglenni cyflogadwyedd.	Parhaus
	Parhau i weithio gydag awdurdodau lleol ac ysgolion i ddiweddaru a llywio'r blaenoriaethau rhanbarthol / lleol.	Parhaus
Cefnogi strategaethau a meysydd polisi allweddol Llywodraeth Cymru fel y cytunwyd (gall hyn newid neu	Yr Iaith Gymraeg	Parhaus
	Yr Economi Werdd	O fis Mai 2021
	Digideiddio	
	Iechyd a Gofal	

gael ei ddiweddaru yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2021). Llywio datblygiad cyfeiriad polisi sgiliau ar ôl yr etholiad.	Cymdeithasol Sectorau allweddol eraill a allai gael eu cydnabod fel blaenoriaeth ar ôl yr etholiad.	
Hwyluso cysylltiadau mewn systemau sgiliau cenedlaethol a rhanbarthol.	Darparu persbectif rhanbarthol i lywio strategaethau sgiliau'r sector cenedlaethol a'r DU. Nodi blaenoriaethau sgiliau trawsffiniol ac adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru. Cydlynu cefnogaeth rhanddeiliaid / darparwyr ar gyfer blaenoriaethau sgiliau i'r Ganolfan Ymchwil Uwch-dechnoleg.	Parhaus
Datblygu gallu a chapasiti yn barhaus fel rhwydwaith cenedlaethol o Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.	Adolygu a diweddaru aelodaeth i sicrhau bod sectorau â blaenoriaeth yn rhanbarthol yn cael eu cynrychioli. Diweddaru / gloywi trefniadau Cylch Gorchwyl a Llywodraethu. Cryfhau gallu ymchwil / dadansoddi data. Gwella presenoldeb ar-lein. Cynyddu cadernid arsyllfeydd sgiliau. Cryfhau gweithio ar y cyd a rhannu arferion gorau rhwng Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.	Parhaus
Cefnogi ailadeiladu economaidd rhanbarthol a datblygiadau yn y dyfodol (gan gynnwys yn drawsffiniol lle bo angen).	Cefnogi ailadeiladu economaidd rhanbarthol a datblygiadau yn y dyfodol (gan gynnwys yn drawsffiniol lle bo angen). Nodi blaenoriaethau i	Parhaus

	ategu buddsoddiad rhanbarthol sy'n cefnogi swyddi a thwf yn y rhanbarthau.	
Cefnogaeth ar gyfer cyfarfodydd ac ymgynghoriadau. ***Arweiniad pellach i'w ddarparu.***	Cadeiryddion Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i gadeirio Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru yn eu tro a chynhyrchu adroddiad diweddaru ar gyfer y Cyngor Datblygu Economaidd. Rheolwyr y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i fod yn bresennol fel sylwedyddion.	Yn ôl yr angen
	Cynrychiolydd cyflogwyr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i fynychu Bwrdd Cynghori ar Brentisiaethau Cymru.	
	Cadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i gynrychioli Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru yn y Cyngor Datblygu Economaidd.	
	Ymgysylltu ag aelodau a rhanddeiliaid y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru.	
Adroddiad Diweddaru (yn unol â Chymal 10 y Llythyr Dyfarnu Grant)	Cyflwyno adroddiadau tystiolaeth ar gynnydd y gweithgareddau a nodwyd yn Atodlen 2.	Gorffennaf 2021 Tachwedd 2021 Mawrth 2022

5. Cyfarfodydd a Gweithgareddau Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

5.1. Cynhaliwyd cyfarfodydd Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

5.2. Mae'r agendâu wedi bod yn amrywiol ac wedi cynnwys:

- Aelodaeth y Bwrdd
- Grwpiau Clwstwr
- Y Fargen Dwf
- Cynllun Gwaith y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
- Gwefan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
- Cymorth Data Cymru
- Data Llywodraeth Cymru – cyflwyniad ynghylch Arolwg Sgiliau Cyflogwyr
- Adroddiad Sgiliau Gwyrdd
- Cynllun Cyfathrebu
- Gyrfa Cymru - cyflwyniadau
- Cyflwyniad yr Adran Gwaith a Phensiynau

5.3. Cafwyd cyflwyniadau ac yna trafodaethau i'w dilyn i lywio gwaith y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Adroddiad Ymchwil Clwstwr Sgiliau Cynaliadwy Wavehill – cyflwyniad Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru
- Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio
- Prentisiaethau Rhanbarthol a Rennir – Ymgynghoriad Anffurfiol
- Y Strategaeth Gyflogadwyedd Newydd a Thwf Swyddi Cymru
- ReAct+
- Data Cymru – adroddiad Sgiliau Gwyrdd
- Sbotolau ar Aelodau
- Templed y Sgwrs Genedlaethol
- Peilot Cronfa Adfywio Cymunedol Canolfan y Dechnoleg Amgen
- Prosiect Hyfforddi Ôl-osod er mwyn Optimeiddio
- Datblygu Strategaeth Twristiaeth
- Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

5.4. Ar 19 Hydref, cynhaliodd Gyrfa Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau ddigwyddiad rhithiol ar y cyd o'r enw 'Eich Gyrfa, Eich Dyfodol', gan ymgynghori â'r Bartneriaeth. Rhoddodd Cadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol drosolwg o waith y Bartneriaeth, Ein Cryfderau Sectorol ac Uchelgais Tyfu Canolbarth Cymru.

6. Adroddiad Sgiliau Gwyrdd

6.1. Comisiynwyd Data Cymru gan y pedair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i ddatblygu Adroddiad Sgiliau Gwyrdd a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022. Rhannwyd canfyddiadau'r adroddiad hwn â Llywodraeth Cymru a phartneriaid rhanbarthol.

7. Adrodd ar COVID-19

7.1. Trwy gydol y pandemig, mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi cyflwyno adroddiadau ynghylch effaith COVID-19 i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r dystiolaeth anecdotaidd a ddefnyddiwyd yn yr adroddiadau ynghylch effaith COVID-19 a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, anfonwyd arolygon cyflogwyr at fusnesau Canolbarth Cymru drwy aelodau Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a rhwydweithiau amrywiol ar draws y rhanbarth. Roedd yr adroddiad terfynol yn grynodeb o'r effaith ar y rhanbarth.

8. Cefnogi strategaethau a meysydd polisi Llywodraeth Cymru fel y cytunwyd. Llywio datblygiad cyfeiriad polisi sgiliau ar ôl yr etholiad.

8.1. Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru'n parhau i gefnogi a hyrwyddo strategaethau a meysydd polisi allweddol Llywodraeth Cymru. Mae'r Bartneriaeth yn parhau i ddarparu persbectif rhanbarthol i lywio strategaethau sgiliau'r sector cenedlaethol a'r DU ynghyd â darparu data sylfaen ar gyfer cynllunio Addysg Bellach, gan ddefnyddio gwybodaeth a arweinir gan gyflogwyr a data gwybodaeth am y farchnad lafur.

8.2. Er mwyn cynorthwyo i sicrhau cyfatebiaeth rhwng cyflenwad a galw ar draws y system sgiliau, a chefnogi ailadeiladu economaidd rhanbarthol a datblygiadau yn y dyfodol, mae Rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn mynd i gyfarfodydd Grŵp Rheoli Tyfu Canolbarth Cymru. Mae rhaglen y Fargen Dwf yn dilyn dull cydweithredol ar draws y rhanbarth ac mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn cyfrannu o safbwynt sgiliau.

8.3. Er mwyn helpu i nodi blaenoriaethau ar gyfer prentisiaethau yn seiliedig ar wybodaeth gan gyflogwyr, mae Rheolwr a Chadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi cwrdd â darparwyr hyfforddiant ac aelodau busnes o fwrdd y Bartneriaeth i drafod anghenion sgiliau yn y rhanbarth a nodi cyfleoedd a fynegwyd gan aelodau busnes.

8.4. Cyfarfu Cadeiryddion y pedair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol â Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi, ar 3 Tachwedd 2021.

8.5. Mae Cadeirydd a Rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn mynd i gyfarfodydd rheolaidd gydag Emma Edworthy, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Cyflogadwyedd a Sgiliau, Llywodraeth Cymru.

8.6. Mae Rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn aelod o'r Cyngor Sgiliau Gwyrdd Hybrid sydd newydd gael ei sefydlu dan arweiniad Diwydiannau Gwyrdd Cymru, a'r cadeirydd yw Carwyn Jones, cyn-Brif Weinidog Cymru. Dyma fwrdd cynghori sy'n darparu arbenigedd a dealltwriaeth, sy'n ddiduedd a'r tu allan i fuddiannau partneriaid cyflawni cyfredol gyda golwg ar ychwanegu gwerth ac nid darparu. Yn ogystal â bod yn gyfrwng i ddefnyddio'r gwaith rhagorol sy'n digwydd yn y maes diwydiant gwyrdd, bydd yn ffrind beirniadol, yn gorff ymgynghorol, cynghorol a chyfeiriadol, a fydd yn tynnu ar sgiliau a gwybodaeth eang aelodau'r fforwm. Y nod yw darparu cyngor eang ar faterion sgiliau gwyrdd a chynnig barn wybodus ar eu heffaith.

8.7. Mae Rheolwr y Bartneriaeth hefyd yn aelod o Banel Arbenigol Cyfranogi mewn Gwaith Teg ar gyfer Iechyd, Llesiant a Thegwch a arweinir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Diben y panel arbenigol hwn yw cynghori ar argymhellion i asiantaethau a phartneriaethau lleol a rhanbarthol er mwyn gwella cyfranogiad mewn gwaith teg a da mewn ffordd sy'n cefnogi iechyd, llesiant a thegwch, a chynghori ar gyfathrebu'r argymhellion hyn. Bu ffocws arbennig ar yr effaith ar bobl ifanc a phlant, yng nghyd-destun Cenedlaethau'r Dyfodol a'r posibilrwydd y gallai pobl ifanc gael eu creithio yn y tymor hir. Datblygwyd deunydd i ddylanwadu ar gynlluniau llesiant lleol a chynlluniau datblygu rhanbarthol a'u gweithrediad. Mae'r ail gam – sef Ymgysylltu – yn mynd rhagddo.

8.8. Mae Rheolwr y Bartneriaeth yn parhau i weithio'n agos â'n Prif Swyddogion Rhanbarthol perthnasol a'r rhanddeiliaid rhanbarthol i gefnogi Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol, blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a pharhau i feithrin ymwybyddiaeth o faterion trawsffiniol.

8.9. Gwahoddwyd Rheolwr y Bartneriaeth i fod yn rhan o Weithgor Fframweithiau Prentisiaethau Cymru sy'n edrych ar y Fframweithiau Prentisiaethau Gwasanaethau Trafnidiaeth a Gweithgynhyrchu ar gyfer Cymru.

9. Y Warant i Bobl Ifanc

9.1. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cyflwyno ymrwymiad uchelgeisiol i ddarparu'r Warant i Bobl Ifanc, gan gynnig cymorth i sicrhau gwaith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth i bawb o dan 25 oed.

9.2. Cyflwynwyd y warant i sicrhau na fyddai cenhedlaeth yn cael ei cholli ledled Cymru oherwydd y dirywiad economaidd a'r cynnydd enfawr mewn diweithdra o ganlyniad i COVID a Brexit.

9.3. Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi comisiynu *Hatch Associates* i ddarparu cymorth technegol. Maent wedi mapio'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd a rhannwyd y canfyddiadau â Gyrfa Cymru er mwyn cynnwys y manylion ar eu platfform Chwilio am Gymorth.

9.4. Datblygwyd adroddiad drafft er mwyn nodi'r llwybrau dilyniant, rhwystrau, a chynllun gweithredu a bydd yn cael ei rannu ag aelodau Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn y cyfarfod nesaf er mwyn derbyn eu sylwadau.

10. Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 3 Blynedd 2022 – 2025

10.1. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i ddatblygu Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 3 Blynedd newydd a Chynllun Gweithredu a fydd yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi rhanbarthol er mwyn cefnogi swyddi a thwf yng Nghanolbarth Cymru.

10.2. Lansiwyd yr arolwg Cyflogaeth a Sgiliau blynyddol a'r dyddiad cau yw 9 Medi. Bydd y wybodaeth hon oddi wrth y cyflogwyr yn cael ei dadansoddi a'i nodi yn yr adroddiad drafft.

10.3. Ynghyd â'r adroddiad 20 tudalen i Lywodraeth Cymru, bydd nifer o atodiadau a fydd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Sgiliau Digidol
- Sgiliau Sero Net
- Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol
- Addysg Bellach a Phrentisiaethau
- Y Gymraeg

10.4. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu Arweinwyr Polisi perthnasol i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, er mwyn darparu cyd-destun ychwanegol a rhoi diweddariadau amserol o'u meysydd. Cynhaliwyd nifer o weithdai polisi penodol yn ystod misoedd yr haf i gynorthwyo'r partneriaethau gyda hyn.

10.5. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r prif adroddiad yw canol mis Hydref. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y bydd rhai o'r atodiadau'n cael eu cyflwyno'n hwyrach yn ddibynnol ar adroddiadau'n cael eu rhannu gan Arweinwyr Polisi Llywodraeth Cymru i nodi'r cynnydd a wnaed.

11. Gweithgareddau Eraill

11.1. Mae cyfarfodydd ar y cyd yn parhau gyda Rheolwyr y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru i edrych ar ganllawiau ac adborth ynghylch Cyfrifon Dysgu Personol. Mae Rheolwr y Bartneriaeth yn aros am adroddiad cynhwysfawr gan Lywodraeth Cymru ynghylch y ddarpariaeth bresennol a'r cyrsiau sydd i ddod ledled y rhanbarth.

11.2. Mae Rheolwr y Bartneriaeth yn gweithio'n agos â Rheolwyr y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol eraill i ddatblygu capasiti a gallu'n barhaus fel rhwydwaith cenedlaethol o Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Enghraifft o'r gwaith hwn yw'r Adroddiad Sgiliau Gwyrdd.

11.3. Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi datblygu perthynas â phartneriaid allweddol fel Gyrfa Cymru, Cymru'n Gweithio, yr Adran Gwaith a Phensiynau, a Serco (AilGychwyn).

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:	**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam** ***Crynodeb:*** Amherthnasol **Hirdymor:** Amherthnasol **Integreiddio:** Amherthnasol **Cydweithio:** Amherthnasol

Cynnwys: Amherthnasol
Atal: Amherthnasol

ARGYMHELLIAD / ARGYMHELLION:

Er gwybodaeth er mwyn derbyn adroddiad blynyddol Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD / ARGYMHELLION:

Enw'r Cyswllt:	Aggie Caesar-Homden, Rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Aggie.caesar-homden@powys.gov.uk
Swydd:	Panel Craffu
Dyddiad yr Adroddiad:	29 Medi 2022
Acronymau:	Amherthnasol